Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 9fed Ebrill 2024

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Jane Pierce a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol - Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r Cynghorwyr, Elwyn Jones, Phyllis Ellis, Elen George, Ynyr Parri, Idris Thomas, Elfed Wyn Williams, Gareth Hughes, Emma Chappell a Lowri James

Ymddiheuriadau - Rhian Evans-Hill

Croesawyd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

Datgan Buddiant -

Lowri James ar gais C24/0249/18/LL

Cofnodion 5ed Fawrth 2024

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Phyllis Ellis (1) Ellen George (2)

Materion o'r Cofnodion

Cysgodfa Bws Dinorwig - Yn dilyn asesiad Gyngor Gwynedd, awgrymwyd fod y Cyngor Cymuned yn cau'r gysgodfa hyd nes y byddwn wedi cael ei adnewyddu, oherwydd bod peryg i'r tô ddisgyn i mewn. Gwnaed hyn yn syth er mwyn diogelwch y cyhoedd, ac aethpwyd ymlaen i gael amcan brisiau ar adnewyddu'r gysgodfa. Yn y cyfamser, mae'r clerc wedi derbyn sawl cwyn gan nifer y cyhoedd, oedd o bosib yn amau fod y gysgodfa wedi ei gau am byth, ond mae'r clerc wedi sicrhau ein bod yn ceisio adnewyddu mor fuan ag sydd bosib, a diolch i'r cyhoedd am fod yn amyneddgar tra mae hyn yn mynd ymlaen.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Hyfforddiant - Derbyniwyd dyddiadau hyfforddiant, a bu i bawb gael y cyfle i fynychu. Bydd y clerc yn anfon i gofrestru'r rhai sydd yn dymuno mynychu.

Cais Lightsource BP - Derbyniwyd cais gan y cwmni i ddod atom i drafod a chyflwyno Project Storio Ynni Pentir. Bydd y Clerc yn cysylltu i drefnu.

Prosiect Natur Llanddeiniolen

Croesawyd Angharad Owen atom i roi gwybodaeth ar hyn sydd wedi datblygu yn y tair blynedd diwethaf. Ar draws y gymuned maent wedi plannu perllannau, datblygu cysylltiadau a gweithio gyda'r ysgolion, menter Gymunedol Bethel, ynghyd a gwahanol fudiadau mewn pentrefi. Yn ddiweddar, mae hi wedi cychwyn cydweithio gydag Adra yn Mhenisarwaun I blannu bylbiau, ac mae hi yn gobeithio cydweithio ar y cyd gyda Gareth Roberts yn fuan. Maent wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn nifer o grantiau trwy gyd weithio gyda grwpiau o'r gymuned. Cytunwyd fod yn syniad da, a byddwn fel Cyngor yn cysylltu ag Angharad I'n harwain ar ardaloedd yn y dyfodol. Nodwyd fod un ardal yn barod dan sylw, sef datblygiad o dai gan Adra ym Methel - lle mae llain o dir neilltuol wedi ei nodi fel glastir. Efallai y buasai yn syniad o'r cychwyn, c ael arbenigedd Angharad I ddatblygu'r llain tir yma gan gydweithio gyda Adra. Diolchwyd iddi am ddod.

Cynllunio

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

C24/0249/18/LL - Fferm Llys, Brynrefail

Codi adeilad amaethyddol - Teimlai'r Cyngor nad ydym yn gallu cefnogi hyn gan fod diffyg gwybodaeth ar ddefnydd yr adeilad.

C24/0149/18/DT - 14 Pentre Helen, Deiniolen

Estyniad Porth I annedd presennol - Dim Gwrthwynebiad

C24/0224/18/LL - Tŷ Rallt, Seion

Codi To dros yr iard fferm bresennol - Dim Gwrthwynebiad

C24/02402/18/DA -Maes Carafanau Rhyd y Galen

Diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllunio C23/0746/18/LL - Dim Gwrthwynebiad

C24/0185/18/DT - Bwthyn Tal y Waun, Deiniolen

Codi Sied ar gyfer beiciau ac offer - Dim Gwrthwynebiad

***Tŷ Mawr Cottages** - Mae yn ymddangos fod yna welliannau yn cael ei wneud ar y safle unwaith eto, gofynnwyd i'r clerc rhoi gwybod i'r adran Gynllunio*

Llwybrau

Llwybr 94 - Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod gwyriad bach i'r llwybr wedi ei ganiatáu yn gyfreithiol bellach.

Adroddiad Blynyddol

Wedi ychydig addasiad Derbyniwyd yr Adroddiad yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Phyllis Ellis (1) Idris Thomas (2)

Cyfrifon

Derbyniodd y clerc cais gan 2 fudiad i gael ail siec rhodd. Nododd y clerc fod hwn yn broblem, gan ein bod wedi dechrau blwyddyn ariannol Newydd, ac felly, buasai'r gost yn dod o dan gyllideb 24/25 yn hytrach na 23/24. Mae yn hynod o bwysig fod y sieciau yn cael eu cyflwyno o fewn y 6 mis! Hefyd mae rheolau rhoddion yn nodi mai dim ond unwaith y flwyddyn y buasai pob mudiad yn gallu gwneud cais, felly ni fuasai'r mudiad yn gallu ymgeisio eto eleni. Serch hynny mae'r clerc am geisio i weld cael eglurhad os oes modd gan yr archwilwyr. Cyflwynwyd Mantolen Ariannol, ynghyd a'r holl wybodaeth o dderbyniadau a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31. Roedd pawb wedi cael yr adroddiadau cyn y cyfarfod i edrych dros y wybodaeth. Nid oedd yr un cwestiwn. Derbyniwyd y cyfrifon a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith, a rhoddwyd caniatâd i'r clerc baratoi'r ffurflen flynyddol, a gyrru manylion i'r archwilwyr mewnol.

<u>O Gwmpas y Bwrdd</u>

Llys Iolen, Penisa'r-waun - Tyfiant yn dod drosodd i'r ffordd, y lôn sydd yn dod i fyny o Lanrug.

Parc Carafanau Brynrefail - Roedd dwy broblem wedi codi ynglyn a'r safle - yn gyntaf roedd tipio anghyfreithlon ganddynt wrth ymyl tai cyfagos, ac sydd bellach wedi ei symud. Yna, nodwyd fod sawl carafán wedi cael eu sefydlu yn dipyn agosach i'r ffordd fawr nac arfer. Pan ymchwiliwyd i mewn i hyn, nid oedd ganddynt hawl cynllunio i wneud hyn. Felly, mae'r opsiwn ganddynt i un ai symud y carafanau ychwanegol, neu gyflwyno ôl gais cynllunio. Mae'r wybodaeth i gyd wedi mynd i'r brif swyddfa, ac felly, mater o ddisgwyl a gweld be fydd yn digwydd.

Ffordd o Beran I Dŷ Mawr - Mae'r ffordd yma yn dirywio yn ddyddiol, ac yn dilyn glaw trwm nid oes posib gweld y tyllau, mae hynny yn ei gwneud yn beryglus iawn mewn mannau.

Cadarnhau Taliadau:

690 - £250

Bydd Cyfarfod Blynyddol ar y 7fed Fai